

DME: Rhwydwaith Mewnol – Ffordd Liniaru yr M4 – Taflen Weithgaredd (3A)

Opsiynau

A. Rhowch y teitl **Opsiynau**.

B. Beth yw'r NDF?

C. Beth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

Defnyddiwch yr amcanion i'ch helpu.


- Cymru Lewyrchus
- Cymru Hydwyth
- Cymru Iachach
- Cymru fwy Cydradd
- Cymru â Chymunedau Cydlynol
- Cymru â Diwylliant Bywiog ac iaith Gymraeg Llwyddiannus
- Cymru Gyfrifol drwy'r Byd i Gyd

D. Lluniwch dabl i'ch helpu i ddisgrifio'r tir naill ochr i'r ffordd ddu arfaethedig.

- Defnyddiwch y defnydd o dir canlynol i'w gwblhau:
- Tir Amaeth
- Diwydiant
- Ffyrdd
- Dŵr
- Coetir
- Tai

| O | I | Gogledd | De |
|----------------------------|----------------------------|---------|----|
| Cyffordd 23 | Cyffordd 23A | | |
| Cyffordd 23A | Parc Ewro Gwent | | |
| Parc Ewro Gwent | Solutia Chemical Works | | |
| Solutia Chemical Works | Afon Wysg/Dociau Casnewydd | | |
| Afon Wysg/Dociau Casnewydd | Casbach | | |

E. Pa rannau o Gymru sydd â lleoliadau â'r amddifadedd gwaethaf, fel y dangosir ar fap M.A.L.I.C.



F. Beth ydych chi'n meddwl oedd ystyr Prif Weinidog diwethaf y DU (David Cameron) wrth iddo ddisgrifio'r M4 o gwmpas Casnewydd fel:

“troed dros gorn gwddf economi Cymru”.

G. Ceisiwch roi'r dyfyniad yma gan AS Casnewydd Paul Flynn am y ffordd las yn eich geiriau eich hunain:

“Byddai ‘datrysiad’ y ffordd las yn waeth i Gasnewydd na dim newid o gwbl.

Byddai cynllun y Ffordd Las yn dod â thagfeydd tua'r flwyddyn 2004 yn ôl, a gyda phroblemau ychwanegol, byddai'n gwneud i Gasnewydd fod yn gymysgedd o lygredd a thagfeydd.”

H. Lluniwch dri thabl i'ch helpu i drefnu eich syniadau am y pethau da a drwg ar gyfer pob opsiwn

| Ffordd Ddu | |
|------------|------|
| Da | Drwg |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

| Ffordd Las | |
|------------|------|
| Da | Drwg |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

| Gwneud Dim | |
|------------|------|
| Da | Drwg |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

9. Ysgrifennwch sgorau dadansoddi deubegynol ar gyfer pob opsiwn mewn tabl. Efallai gwnewch chi hyn fel dosbarth, gyda'ch athro/athrawes yn eich helpu.

| Opsiwn | Sgôr dadansoddi deubegynol |
|-------------------|----------------------------|
| Ffordd Ddu | |
| Ffordd Las | |
| Gwneud Dim | |

10. Lluniwch siart far o'ch sgorau dadansoddi deubegynol.

11. Ar sail eich canlyniadau, rhowch yr opsiynau yn nhrefn o'r brig (y gorau) yn rhif 1 i'r bôn (y gwaethaf) yn rhif 3.

Rhif 1

Rhif 2

Rhif 3